

I sylw'r Ysgolion Sul

Penderfynwyd dileu y teitl 'gwaith cwrs' eleni a chael pob plentyn – o'r ieuengaf i'r hynaf – a'r oedolion i wneud 'cyfraniad', waeth pa mor fychan yw'r cyfraniad. Gosodwyd y testun "**Myfi Yw**" eleni a chewch ddehongli'r testun mewn unrhyw ddull neu fodd gan feithrin sgiliau cynllunio creadigol, ymchwilio a datblygu syniadau hefo eraill yn yr Ysgol Sul.

Derbynnir y cyfraniadau yng Nghapel Trefnant nos Lun, Ebrill 8fed rhwng 7.00 ac 8.00 o'r gloch. Gofynnir i chi roi enw pob un yn eglur ar y gwaith.

Os ydych am baratoi arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r trefniant i Capel Trefnant erbyn 5.30 nos Wener, Mai 10fed. Cysylltwch ymlaen llaw ag Anwen (01745 832303 / anwenjones303@mail.com) i'w galluogi i gynnwys yr enwau yn yr adroddiad, os gwelwch yn dda.

Bydd y Cyfarfod Gwobrwyo yn cael ei gynnal nos Wener, Mai 10fed yng Nghapel Trefnant am 6.00. Bydd sgwrs i'r plant a lluniaeth ysgafn i bawb fydd yn bresennol ac adloniant i'r plant i ddilyn gan griw Coleg y Bala.

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** – Bwriedir mynd i Noson o Ddramâu yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.30 nos Fawrth, Chwefror 26ain. Os ydych angen trafniadaeth neu am rannu car, dewch i faes parcio Capel Coffa Henry Rees erbyn 6.45, os gwelwch yn dda. Hefyd, nos Wener, Mawrth 1af, cynhelir Swper Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas yn y Ffestri am 7.00. Enwau i Aneurin (870618) erbyn dydd Mawrth, Chwefror 26ain, os gwelwch yn dda.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Mawrth 1af – 3ydd. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch archebu lle trwy fynd i wefan colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg.
- **RHAGRYBUDD (SARON)** – Ar ddechrau'r oedfa yn Saron am 10.00 dydd Sul, Mawrth 17eg, fe fydd aelodau Capel Saron yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Chwefror 3^{ydd} a 10^{fed}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi un ag oll i Fore Bro Aled yn Llansannan ar gychwyn y mis bach! Sut ydych chi'n ymateb i rybuddion fel arfer? Dwi'n gobeithio nad fi yw'r unig un ffôl sydd wedi clywed y rhybudd gan berson sy'n gweini bwyd bod y plât o'm blaen yn boeth, ond y peth cyntaf yr wyf yn ei wneud yw teimlo'r plât ac yna difaru'n syth! Neu beth am y rhybuddion tywydd yr ydym wedi ei dderbyn dros yr wythnos ddiwethaf – anwybyddu'n llwyr a chario 'mlaen fel arfer neu fynd i'r siop i lenwi'r cypyrddau rhag ofn?!

Mae'n debyg bod ein hymateb i rybuddion yn dibynnu cryn dipyn ar ein cymeriad ac ar ba mor ddifrifol yw'r hyn y mae'r rhybudd yn cyfeirio ato. Ac wrth reswm, nid oes rhybuddion mwy difrifol i'w cael na'r rhai a welir yn y Beibl pan mae'r Creawdwr yn siarad â'i bobl a materion o fywyd, marwolaeth a thragwyddoldeb yn y fantol. Gwelwn un esiampl o'r fath yn Hebreaid 2:1-3 (Beibl.net):

"Felly mae'n bwysig ein bod ni'n gwranddo'n ofalus ar y neges dŷn ni wedi'i chlywed. Mae fel angor yn ein cadw ni rhag drifftio i ffwrdd gyda'r llif. ² Roedd y neges roddodd Duw i ni drwy angylion yn gwbl ddibynadwy, ac roedd pawb oedd yn torri'r Gyfraith neu'n anufudd yn cael beth oedden nhw'n ei haeddu. ³ Felly pa obaith sydd i ni ddianc rhag cael ein cosbi os gwnawn ni ddiystyru'r neges ffantastig yma am Dduw yn achub! Cafodd ei chyhoeddi gyntaf gan yr Arglwydd Iesu ei hun. Wedyn cafodd ei rhannu gyda ni gan y bobl hynny oedd wedi clywed Iesu."

Sawl gwaith ydym ni wedi meddwl am ein ffydd bersonol yn y termau yna? Ydym ni'n llwyr ddibynol ar y newyddion da am Grist fel y mae'r morwr yn llwyr ddibynol ar angor y llong i'w gadw rhag hwylio i drafferthion ar y llif? Neges obeithiol yw'r Efyngyl am Dduw yn achub trwy anfon ei Fab annwyl i dderbyn cosb pechod yn lle'r euog. Neges wych, ffantastig ydyw gafodd ei chyhoeddi gan Iesu Grist ac yna a ledaenwyd gan ei ddisgyblion i bob cwr o'r byd.

Does dim gobaith os ydym yn diystyru'r neges a'i chanolbwynt sef Crist ei hun, ond o wrando a dod mewn ffydd at Iesu bydd gennym 'obaith bywiol' yn ôl Pedr. (1 Pedr 1:3)

Gweddiwn yr wythnos hon am gymorth Duw i wrando ac ymateb gan gadw geiriau Iesu mewn cof: "Pob un felly sy'n gwranddo ar y geiriau hyn o'r eiddof ac yn eu gwneud, fe'i cyffelybir i un call, a adeiladodd ei dŷ ar y graig.... A phob un sy'n gwranddo ar y geiriau hyn o'r eiddof a heb eu gwneud, fe'i cyffelybir i un ffôl, a adeiladodd ei dŷ ar y tywod." (Mathew 7:24,26)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.
- Llun – 4^{ydd} ➤ **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan am 7.30. (DYDDIAD NEWYDD)
- Mercher – 6^{ed}
lau – 7^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Gwener – 8^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Mercher – 13^{eg}
lau – 14^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.
- Sul canlynol – 17^{eg} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.
- Mercher – 6^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (3^{ydd})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Mawrth – 12^{fed} ➤ Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.30. Croeso i'r holl aelodau.
- Mercher – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (10^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 17^{eg} ➤ Bydd Mr Gwilym Jeffs yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30, a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00, a bydd Mr Gwilym Jeffs yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Cyhoeddiadau

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.
- Mawrth – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Peniel, Groes a Nantglyn yn Groes am 7.30 yng nghwmni Sheila Dafis.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Groes yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Gwener – 15^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (10^{fed})**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
- Sul canlynol – 17^{eg} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yno am 11.00. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Llanefydd yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.
- Mawrth – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Peniel, Groes a Nantglyn yn Groes am 7.30 yng nghwmni Sheila Dafis.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
- Sul canlynol – 17^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.